



HWYLUSO LLEIHAU FFOSFFORWS TRWY GYDWEITHIO MEWN ACA SY'N METHU

Memorandwm Dealltwriaeth

Dyddiad cadarnhau:



Dŵr Cymru
Welsh Water

CONTENTS

RHEOLI FERSIYNAU	2
DEHONGLIAD	3
1. CEFNDIR	3
2. NODAU AC AMCANION YR MOU	4
3. AMSERLEN	4
4. PARTNERIAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU	4
5. CYFATHREBU	5
6. DATA	6
7. CYFRANIADAU ARIANNOL	6
8. MONITRO	6
9. ARWEINWYR DYNODEDIG Y BARTNERIAETH	7
10. TERFYNU A DATRYS ANGHYDFODAU	7
11. YMWADIAD	7

MAE'R MEMORANDWM DEALLTWRIAETH YMA,
Y CYFEIRIR ATO WEDI HYN FEL "MOU", RHWNG:

SEFYDLIAD	DŴR CYMRU CYFYNGEDIG	
Cynrychiolydd		
Y cyfeirir ato wedi hyn fel		

VERSION CONTROL

FERSIWN	DYDDIAD CYHOEDDI	GOLYGWYD GAN	CYMERADWYWYD GAN
V.01			

DEHONGLIAD

Yn y MOU yma, dyma fydd ystyr yr ymadroddion a'r acronymau canlynol:

"**AMP**" yw'r Cynllun Rheoli Asedau – sef y cylch buddsoddi 5 mlynedd a ddilynir yn y diwydiant dŵr.

"**CNC**" yw'r acronym ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru / Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

"**Defnydd Busnes Mewnol**" yw defnydd o fewn busnes neu sefydliad.

"**GDPR**" yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

"**Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff**" yw'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n rhan o'r Offer ar yr Eiddo, i'r fath raddau nad ydynt yn ffurfio rhan o'r Tir Coch.

"**Gwlyptir/Gwlyptiroedd Trin Adeiledig/CTW**" yw'r defnydd o wlyptir at ddibenion gwella ansawdd dŵr yn benodol.

"**Gwybodaeth**" yw gwybodaeth a amddiffynnir gan hawlfraint neu gan hawl cronfa ddata (er enghraifft, gweithiau llenyddol ac artistig, cynnwys, data a chodau ffynhonnell) y cynigir ei defnyddio o dan delerau'r cytundeb hwn.

"**Memorandwm Dealltwriaeth/MOU**" yw'r cytundeb a lofnodir gan y ddau barti i gytuno i weithio ar y cyd yn ddiffuant er mwyn cynnal perthynas waith da a chyflawni nodau cyffredin.

"**Offer**" yw'r Gweithfeydd Trin Carthffosiaeth, y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ac unrhyw bibellau codi a/neu orlifoedd wrth gefn, pibellau, gollyngfeydd carthion cyfunol a thyllau archwilio sy'n eiddo i'r Cwmni yn ei gapasiti fel Ymgymerydd Statudol ac mae hyn yn cynnwys unrhyw ategolion eraill fel y'u diffinnir yn Adran 219 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

1. CEFNDIR

1.1 Bwriad yr MOU yma yw ategu'r cydweithio rhwng DCWW a[c] [Enw'r Sefydliad] i gyflawni asesiad[au] hyfywedd ar gyfer gwlyptir[oedd] trin adeiledig (CTW), yn [enw'r lleoliad/dalgylch os oes sawl GTDG], lle caiff y CTW arfaethedig ei fywdo gan elifion terfynol wedi eu trin gan DCWW, o [enw'r GTDG].

1.2 Amddiffynnir pob Ardal Cadwraeth Arbennig o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'i diwygiwyd (y Rheoliadau Cynefinoedd). Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) safonau newydd o ran ffosffadau mewn ACA afonol yng Nghymru. Mae'r targedau hyn 50-80% yn uwch na'r terfynau blaenorol. Ffeindiodd asesiad o gydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a gyflawnwyd gan CNC, bod yna fethiant i gyflawni'r targedau hyn yn afonydd Dyfrdwy, Cleddau, Gwy, Teifi ac Wysg.

Mae lefelau uchel o ffosffadau mewn dŵr wyneb yn achosi ewtroffigedd yn ein hafonydd. Mae ewtroffigedd yn cael effaith andwyol ar ansawdd y dŵr ac ar ecoleg. Mae'r broblem yn gymhleth, ac mae yna nifer o ffactorau sy'n cyfrannu ati; bydd un rhan o ddalgylch penodol yn wahanol iawn i ddarn arall o afon mewn dalgylch arall – ac mae'r atebion yr un mor gymhleth ac amlweddog â'i gilydd. Ar ei orau, gallai canolbwytio ar un sector, neu un safle trwy bennu targedau llymach, arwain at ddefnydd aneffeithlon o gyllid buddsoddi, ac ar ei waethaf, gallai olygu nad oes unrhyw welliant o bwys yn ein hafonydd neu'r cynefinoedd sy'n dibynnu arnynt.

1.3 Yn dilyn gwaith modelu ar Ddosbarthiad Ffynonellau er mwyn clustnodi prif ffynonellau'r ffosffadau ar bob darn o'r pump afon ACA sy'n methu, mae DCWW wedi cynhyrchu rhaglen fynegol o weithfeydd trin dŵr gwastraff lle mae'n debygol y bydd angen amodau newydd yn eu trwyddedau ffosfforws er mwyn bodloni anghenion DCWW o ran cydymffurfiaeth. Felly, mae DCWW bellach mewn sefyllfa i weithio gyda phartneriaid dalgylch i gyflawni astudiaethau hyfywedd wedi eu targedu er mwyn lleihau'r llwyth ffosfforws ymhellach.

Dylai gweithio mewn cydweithrediad a rheoli dalgylchoedd ill dau fod yn bethau hyblyg ac iteraidd. Bydd gan bob categori o GTDG a phob cynllun, gyda phob sefydliad, wahanol anghenion o ran y dulliau a ddefnyddir. Ond, o ystyried pa mor ddybryd yw anghenion yr NMB, er mwyn hwyluso'r partneriaethau gorau posibl mae DCWW wedi creu templed ar gyfer MOU a dogfennau ategol i ddiffinio'r Egwyddorion Cydweithio a fydd yn cyflunio'r cynlluniau wrth symud ymlaen.

Ychydig o werth sydd yna i bennu contractau cymhleth ar y cam hyfywedd, ond bydd angen contractau mwy manwl os bydd y cynlluniau'n datblygu i'r cam dylunio a chyflawni. Caiff DCWW a[c] [enw'r sefydliad], y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel 'y ddau barti', eu tywys gan yr egwyddorion a bennir yn yr MOU wrth fwrw ymlaen â'r astudiaethau hyfywedd ar gyfer Gwlyptiroedd Trin Adeiledig (CTW), er mwyn hwyluso partneriaethau a sicrhau perthynas waith ddidrafferth.

2. NODAU AC AMCANION YR MOU

- 2.1 Nod yr MOU yma yw ffurfioli ac ychwanegu llywodraethiant at yr asesiadau hyfywedd ar gyfer cydweithio ar CTW at ddibenion lleihau ffosforws, lle defnyddir FE DCWW fel llif porthiant.
- 2.2 Dyma'r amcanion penodol:
 - 2.2.1 Disgrifio'r rolau a'r cyfrifoldebau rhwng DCWW a[c] [Enw'r Sefydliad] a chlustnodi Pwynt Cyswllt Unigol (SPoC) pob sefydliad.
 - 2.2.2 Diffinio sut y caiff y bartneriaeth ei chyfleu i gynulleidfoedd allanol, a sut y bydd cynrychiolwyr y sefydliadau yn cyfathrebu o fewn y bartneriaeth.
 - 2.2.3 Diffinio sut y caiff data ei rannu a'i storio.
 - 2.2.4 Disgrifio sut y caiff costau eu rhannu, a'r cyfraniadau fesul sefydliad.
 - 2.2.5 Sicrhau tryloywder o ran y prosesau a'r fethodoleg a ddatblygir trwy'r astudiaeth yma o hyfywedd ar gyfer CTW.

3. AMSERLEN

- 3.1 Yr amserlen gychwynnol ar gyfer y gweithgareddau partneriaeth y bydd yr MOU yma'n eu cwmpasu fydd hyd yr astudiaeth hyfywedd desg a'r astudiaeth hyfywedd ar sail arolwg ar y ddaear; a fydd yn dechrau ar [XX/XX/20XX], ac y disgwylir iddi ddod i ben ar [XX/XX/20XX].
- 3.2 Os bydd yr astudiaeth o hyfywedd yn symud ymlaen i'r cyfnod dylunio ac adeiladu, daw'r MOU yma i ben. Daw'r camau dylunio ac adeiladu o dan gytundeb cyfreithiol ar wahân. Mae hyn er mwyn cadw'r rolau a'r cyfrifoldebau, a'r ymrwymïadau a wneir, yn benodol i bob cam unigol ym mhartneriaeth y CTW.
- 3.3 Caiff y gweithgareddau eu hadolygu bob chwarter er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni fel y cytunwyd, a'u bod yn cael yr effaith a fwriedir.

4. PARTNERIAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

- 4.1 Disgrifir y gweithgareddau y disgwylir i'r bartneriaeth eu cyflawni trwy'r cyfnod asesu hyfywedd isod, wedi eu rhannu fesul sefydliad.
 - 4.1.1 Cyfamodau DCWW
 1. Bydd DCWW yn darparu GTDG wedi eu sgrinio a'u categorio'n barod ar gyfer [y sefydliad a'r partneriaid a enwebir ganddo], gan ddiffinio'r cyfle sydd ar gael i gydweithio.
 2. Bydd DCWW yn darparu data penodol am [enw'r GTDG] ar gyfer [y sefydliad a'r partneriaid a enwebir ganddo] er mwyn caniatáu iddo gyflawni astudiaeth ddesg o hyfywedd y CTW. Bydd y data yma'n cynnwys cyfeirnod grid sy'n dangos man rhyddhau cyfredol y GTDG, y boblogaeth gyfatebol y mae'r GTDG yn ei gwasanaethu, a chyfanswm tybiedig y ffosforws sy'n cael ei ryddhau trwy elifion DCWW wedi eu trin. Caiff data a ddarperir ei reoli y tu hwnt i broses llywodraethu'r EIR, a bydd ei ddefnydd ymwneud yn benodol â hyfywedd y CTW.
 3. Bydd DCWW yn darparu manylebau ar gyfer cyfnod hyfywedd cynlluniau a gyflawnir ar y cyd (ar gyfer GTDG categori B a C), i gynorthwyo [y sefydliad a'r partneriaid a enwebir ganddo]. Bwriad y manylebau hyn yw sicrhau bod y deilliannau hyfywedd yn bodloni safonau sy'n dderbyniol i'r Diwydiant Dŵr ac er mwyn sicrhau bod yr asesiad o hyfywedd yn cynorthwyo'r cam dylunio'n ddigonol, os bydd yn cyrraedd y pwynt yna.
 4. Bydd DCWW yn cynorthwyo ac yn mynychu cyfarfodydd perthnasol i ddatblygu hyfywedd y CTW.
 5. Bydd DCWW yn cyfleu unrhyw newidiadau o ran categori'r GTDG cyn gynted â phosibl yn dilyn trafodaethau gyda'r rheoleiddwyr Amgylcheddol ac Economaidd. Bydd DCWW yn dryloyw ynghylch effaith y newidiadau hyn ar yr astudiaeth o hyfywedd ar gyfer y CTW, a'r cyfle sydd ar gael i gydweithio.
 6. Bydd DCWW yn llunio ac yn darparu manylebau hyfywedd a rhestrau cyfeirio ar gyfer cam 1, er mwyn sicrhau bod cam 1 yn cynhyrchu deilliannau manwl gywir sy'n hwyluso datblygiad i gam 2 o'r broses.

4.1.2 Cyfamodau [enw'r sefydliad]

1. Mae [Enw'r Sefydliad] yn cydnabod bod gwaith sgrinio dangosol DCWW yn seiliedig ar bolisi a deddfwriaeth cyfredol. Os bydd y canllawiau polisi yn newid, mae'n bosibl y bydd hynny'n cael effaith ar gynlluniau buddsoddi DCWW ac felly ar y cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio mewn gwahanol GTDG.
2. Mae [Enw'r Sefydliad] yn derbyn bod DCWW yn rhannu ei restr fynegol o leoliadau buddsoddi a bennwyd ar sail modelau SAGIS cyn cael cymeradwyaeth ein rheoleiddwyr amgylcheddol ac economaidd ac y gallai hyn effeithio at gategori'r GTDG, ar ganol, neu hyd yn oed ar ôl cwblhau astudiaeth hyfywedd.
3. Bydd [Enw'r Sefydliad] wedi cael cefnogaeth yr NMB o dan sylw i fwrw ymlaen â'r astudiaeth hyfywedd, a bydd yn parhau i fod yn atebol am adrodd ar gynnydd yr asesiad o hyfywedd i'r NMB mewn cyfarfodydd bwrdd.
4. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn defnyddio'r data sy'n cael ei rannu gan DCWW a[c] [Enw'r Sefydliad]
5. Mae [Enw'r Sefydliad] yn cytuno i beidio â chamarwain eraill na cham-gyfleu'r wybodaeth o ddarperir na'i ffynhonnell, a bydd yn cydnabod ffynhonnell y Wybodaeth a ddarperir trwy gynnwys datganiad priodoli.
6. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn ymrwmo i gyflawni'r astudiaeth hyfywedd desg o fewn amserlen sy'n gyson â dyddiadau cau rheoliadol AMP DCWW (ar gyfer GTDG categori B a C).
7. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn cynorthwyo ac yn mynychu cyfarfodydd perthnasol sy'n ymwneud ag asesu hyfywedd y CTW.
8. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn arwain ac yn caffael asesiad hyfywedd desg ar gyfer y CTW gyda phartner priodol (gweler atodlen 7 am yr egwyddorion ariannu).
9. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn cynnwys holl gwmpas yr anghenion yn yr asesiad o hyfywedd. Caiff cwmpas y gwaith ei gytuno rhwng DCWW a[c] [Enw'r Sefydliad] cyn mynd ati i fesur hyfywedd.
10. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn dilyn y manylebau asesu hyfywedd y mae DCWW yn eu pennu fel safon ofynnol ar gyfer pob arolwg geo-dechnegol.
11. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn dilyn yr holl ofynion a phrotocolau amgylcheddol statudol a rheoliadol bob amser.
12. Mae [Enw'r Sefydliad] yn derbyn na fydd deiliant yr astudiaeth hyfywedd o reidrydd yn golygu y gall y cynllun symud ymlaen i'r cam dylunio a chyflawni. Nid yw cam asesu hyfywedd y cydweithio yma'n golygu bod DCWW yn ymrwmo i ddefnyddio'r elifant terfynol ar gyfer y CTW.
13. Bydd [Enw'r Sefydliad] yn rhannu deilliannau'r astudiaeth hyfywedd gyda DCWW a bydd yn dryloyw ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

5. CYFATHREBU

- 5.1 Ystyrir pob achos o gydweithio fel trefniant partneriaeth busnes, felly rhaid gwneud pob agwedd yn glir ac yn blaen i'r ddau barti o dan sylw, a rhaid i'r ddau barti fod yn glir ac yn blaen hefyd.
- 5.2 Trafodir y rolau a'r cyfrifoldebau a gyflwynir yn adran 4.1, a chytunir ar y rhain yn ystod y cyfnod cychwynnol. Cânt eu dilyn o hynny ymlaen.
- 5.3 Caiff pob cytundeb a phenderfyniad eu hategu'n ysgrifenedig a'u rhannu er mwyn i'r ddau barti eu cymeradwyo.
- 5.4 Bydd yna dryloywder ar bob cam o'r cyfnod asesu hyfywedd; tryloywder ynghylch y data a ddefnyddir, y fethodoleg a ddilyniir, pwy sydd wedi cyfrannu a chomisiynu'r gwaith, a lle bo'n berthnasol, pwy sydd wedi cyfrannu beth.
- 5.5 Bydd gan y ddau barti barch at ei gilydd a dealltwriaeth o'r arbenigedd, y profiad, y sgiliau a'r bylchau posibl yng ngwybodaeth pob parti.
- 5.6 Caniateir cysylltiadau allanol (fel datganiadau i'r wasg er enghraifft) dim ond gyda chaniatâd y ddau barti, a chan ddefnyddio geiriad cymeradwy.
- 5.7 Ni fydd y naill barti na'r llall yn defnyddio logo ei gilydd heb ganiatâd.
- 5.8 Cynhelir y cyfarfodydd ar lein (MS Teams) oni chytunir fel arall. Cynhelir y cyfarfodydd ar amllder rhesymol, gan ystyried ymrwymadau ychwanegol y ddau barti y tu hwnt i'r bartneriaeth hon.
- 5.9 DCWW fydd yn cynnal cyfarfod cychwynnol y bartneriaeth i drafod [enw'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff].
- 5.10 [Enw'r sefydliad] neu ei ymgynghorydd hyfywedd, [enw] fydd yn cynnal ac yn cadeirio cyfarfodydd y dyfodol.

6. DATA

- 6.1 Bydd y ddau barti yn cytuno y caiff data ei rannu o dan amodau cyfrinachedd bob amser.
- 6.2 Bydd y ddau barti'n cytuno, os darperir gwybodaeth sensitif, rhaid ei marcio'n "Swyddogol - sensitif" a rhaid ei chadw'n ddiogel rhag unrhyw ddefnydd diawdurdod neu ddamweiniol, mynediad, dyblygiad, datgeliad, difrod, colled neu ddifa.
- 6.3 Bydd y ddau barti'n cydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, ac ni fyddant yn gwneud dim i beri i'r parti arall fynd yn groes i'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 6.4 Bydd y ddau barti'n cytuno, yn amodol ar unrhyw amserlenni pellach y cytunir arnynt uchod, neu a gytunir fel arall o bryd i'w gilydd yn ysgrifenedig rhwng y ddau barti, y darperir y wybodaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith ("yr amserlen"). Bydd yr amserlen yn dechrau ar y diwrnod pan ddaw'r cais am wybodaeth i law gan y naill barti neu'r llall. Os na all y naill barti neu'r llall ddarparu'r wybodaeth o fewn yr amserlen am unrhyw reswm, bydd yn cyfleu'r rhesymau pam nad oes modd eu cyflawni i'r parti arall ac yn darparu amserlen ddiwygiedig ar gyfer darparu'r wybodaeth.
- 6.5 Mae DCWW yn rhannu gwybodaeth cyn pennu rhaglen yr AMP yn derfynol er mwyn hwyluso cydweithio er budd trydydd partion. Felly, mae'r ddau barti'n cytuno y gall fod yna newid o ran categori'r GTDG, graddfa'r cynllun a'r dyddiad cyflawni ar unrhyw bwynt yn y cam hyfywedd yma.
- 6.6 Mae'r ddau barti'n cytuno taw dim ond ar ôl cael caniatâd y llall y gall y naill barti neu'r llall ddefnyddio unrhyw ddeilliannau ac eiddo deallusol sy'n cael eu datblygu ar y cyd trwy weithgareddau hyfywedd sy'n dod o fewn cwmpas yr MOU yma.
- 6.7 Bydd yr holl eiddo deallusol arall a ddefnyddir wrth weithredu'r MOU yn parhau i fod yn eiddo i'r sefydliad a'i darparodd. Gall y naill barti neu'r llall ddefnyddio'r eiddo hwn at y dibenion a bennir yn y MOU, ond rhaid cael caniatâd perchennog yr eiddo cyn ei ddefnyddio at ddibenion nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y MOU.
- 6.8 Bydd sicrwydd ansawdd yn allweddol trwy gydol y cyfnod cydweithio yma, o ran y data a ddefnyddir, y mecanwaith arolygu ac o ran dilyn y manylbau dylunio. Bydd y ddau barti'n dilyn y gofynion o ran sicrwydd ansawdd a'r manylbau y mae DCWW yn eu darparu.

7. CYFRANIADAU ARIANNOL

- 7.1 Mae'r ddau barti'n cydnabod ac yn cytuno nad yw'r MOU yma, na'i lofnodi, yn gosod unrhyw rwymedigaeth ariannol nac ariannu uniongyrchol ar y naill barti i'r llall. Dim ond ar sail cytundeb ar y cyd bod y ddau barti'n barod i fwrw ymlaen â'r asesiad o hyfywedd y CTW y bydd rhwymedigaethau o'r fath yn codi. Fodd bynnag, mae'r adran isod yn disgrifio'r rhaniad ariannu rhwng y ddau barti, a'r llywodraethiant a'r tryloywder ynghylch costau a fydd yn bodoli, os bydd y cynlluniau'n symud yn eu blaen.
- 7.2 Bydd [enw'r sefydliad] yn ariannu'r astudiaeth ddesg o hyfywedd y CTW/s. Gweler y ddogfen Canllawiau Partneriaeth am ragor o fanylion am y cyfraniadau ariannol fesul sefydliad os bydd y cam hyfywedd yn symud ymlaen i'r cam dylunio.
- 7.3 Bydd y naill sefydliad a'r llall yn defnyddio dull cyfrifo llyfr agored ar gyfer y camau y maent yn eu hariannu.

8. MONITRO

- 8.1 Mae'r holl bartneriaid yn ymrwmo i fonitro'r cydweithio yma, a chynllun y rhaglen sy'n deillio ohono, yn barhaus â'r nod o sicrhau atebolrwydd a pherfformiad yn erbyn cerrig milltir sy'n addas at anghenion y ddau barti.
- 8.2 Er mwyn gweithredu'r MOU yma'n effeithiol, mae'r ddau barti'n cytuno i sefydlu strwythur tryloyw ar gyfer Llywodraethu a gwneud penderfyniadau â'r nod o weithredu egwyddorion ac ysbryd y cytundeb; a hynny wrth roi sylw i'r dystiolaeth wyddonol a thechnegol a gwybodaeth leol y sefydliadau partner hefyd.
- 8.3 Dylai'r ddau barti fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o duedd o ran yr atebion yn sgil llwyddiant prosiectau eraill, a sut y gallai hynny effeithio ar farn a didueddrwydd proffesiynol. Mae yna amryw o 'bwyntiau cyfeirio' y mae DCWW wedi eu cyflwyno mewn ymdrech i leihau tuedd.

9. ARWEINWYR DYNODEDIG Y BARTNERIAETH

- 9.1 Bydd pob partner yn penodi Un Pwynt Cyswllt (SPoC) i arwain gweithredoedd eu sefydliad a thrafodaethau'r bartneriaeth.
- 9.2 Bydd yr aelod o staff arweiniol a ddynodir ar gyfer pob partner yn:
 - 9.2.1 Arwain yr holl gyfathrebu traws-sefydliadol.
 - 9.2.2 Arwain yr holl gyfathrebu rhwng y sefydliadau, gan gynnwys adrodd i'r timau mewnol, staff uwch a byrddau llywodraethu perthnasol fel y bo'n briodol.
 - 9.2.3 Cynrychioli dull gweithredu a safbwynt eu sefydliad.

10. TERFYNU A DATRYS ANGHYDFODAU

- 10.1 Bydd y darpariaethau canlynol mewn grym mewn perthynas â datrys anghydfodau:
 - 10.1.1 Mae'r ddau barti'n cytuno, yn achos unrhyw anghydfod rhwng y Partneriaid sy'n gysylltiedig â'r MOU yma, yr hawliau, dyletswyddau neu rwymedigaethau cysylltiedig, neu unrhyw fater neu beth arall sy'n deillio o neu'n gysylltiedig â mater y CTW, y bydd y Partneriaid yn ceisio datrys yr anghydfod trwy drafodaethau anffurfiol yn gyntaf.
 - 10.1.2 Yn niffyg cytundeb o'r fath rhwng y SPOC, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r anghydfod at swyddogion uchaf pob sefydliad er mwyn ceisio dod i setliad ar fater yr anghydfod.
 - 10.1.3 Os na ellir datrys unrhyw anghydfod trwy ddefnyddio'r dull a enwyd yn 10.1.1 a 10.1.2 cyn pen chwedeg diwrnod calendr, mae'r ddau sefydliad yn cytuno y caiff yr anghydfod ei negodi trwy wasanaeth cyfryngu rhwng y Partneriaid. Câi'r cyfryngwr ei gyflafareddu gan [enw cyfryngwr addas].
 - 10.1.4 Caiff costau'r cyfryngu (os oes yna gostau) eu rhannu'n gyfartal rhwng y Partneriaid.
 - 10.1.5 Gall unrhyw barti derfynu'r MOU yma ac unrhyw gytundeb cysylltiedig unrhyw bryd, ac am unrhyw reswm trwy roi trideg (30) diwrnod o rybudd ychwanegol i'r llall; ar yr amod, fodd bynnag, os na fydd yn cyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y MOU yma, y bydd gan y partner yr hawl i derfynu'r MOU yma ac unrhyw gytundeb, cynllun gwaith a chyllideb gysylltiedig ar unwaith trwy hysbysiad ysgrifenedig.

11. YMWADIAD

- 11.1 Dylid nodi, trwy lofnodi'r ddogfen hon neu trwy gymryd rhan ym mhartneriaeth [enw'r dalgylch/GTDG], nid yw'r partneriaid yn ymrwmo i rwymedigaethau sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol. Bwriedir i'r partneriaid aros yn annibynnol ar ei gilydd, ac nid yw'r cydweithio rhyngddynt o'u defnydd o'r term 'partner' gyfystyr â chreu endid cyfreithiol, nac yn awdurdodi cychwyn ymrwymiad i neu ar ran ei gilydd.

Llofnodwyd ar ran Dŵr Cymru Cyfyngedig

..... Dyddiad

(Enw, Swydd)

Llofnodwyd ar ran [Enw'r Sefydliad]

..... Dyddiad

(Enw, Swydd)